# Tasg 1

# Dathlu'r Flwyddyn Newydd

**Y Flwyddyn Newydd**

Mae llawer o bobl ar draws y byd yn dathlu'r Flwyddyn Newydd ar Ionawr 1af. Maen nhw'n dathlu am ganol nos ond mae hyn yn digwydd ar wahanol adegau.

Sut mae hyn yn bosib?

**Ateb**

Mae canol nos – a dechrau'r Flwyddyn Newydd – yn digwydd ar wahanol adegau ar draws y byd oherwydd bod y byd wedi ei rannu'n wahanol barthau amser.

Mae pobl sy'n byw yn y dwyrain yn dathlu'r Flwyddyn Newydd o'n blaen ni, e.e.

- yn Christchurch, Seland Newydd, maen nhw'n dathlu 13 awr o'n blaen ni
- yn Sydney, Awstralia, maen nhw'n dathlu 11 awr o'n blaen ni
- ym Milan, Yr Eidal, maen nhw'n dathlu 1 awr o'n blaen ni.

Mae pobl yn y gorllewin yn dathlu ar ein hôl ni, e.e.

- yn Ninas Mecsico, maen nhw'n dathlu 6 awr ar ein hôl ni
- yn Los Angeles, maen nhw'n dathlu 8 awr ar ein hôl ni
- yn Honolulu, Hawaii, maen nhw'n dathlu 10 awr ar ein hôl ni.

| | | |
|---|---|---|
| o'n blaen ni | o flaen + ni | ahead of us, before us |
| ar ein hôl ni | ar ôl + ni | after us, behind us |

Ewch i'r dudalen nesaf.

Atebwch y cwestiynau yma.

1. Pan fyddwn ni'n dathlu'r Flwyddyn Newydd yng Nghymru, faint o'r gloch ydy hi yn Christchurch, Seland Newydd? (+13 awr)

   Mae hi'n

2. Pan fyddwn ni'n dathlu'r Flwyddyn Newydd yng Nghymru, faint o'r gloch ydy hi yn Ninas Mecsico? (-6 awr)

   Mae hi'n

3. Pan fyddwn ni'n dathlu'r Flwyddyn Newydd yng Nghymru, faint o'r gloch ydy hi yn Los Angeles?

   Mae hi'n

4. Pan fyddwn ni'n dathlu'r Flwyddyn Newydd yng Nghymru, faint o'r gloch ydy hi ym Milan?

   Mae hi'n

5. Ysgrifennwch gwestiwn tebyg a'i roi i'ch partner.

6. Atebwch gwestiwn eich partner.